



TGAU

3020U20-1C

DYDD MAWRTH, 23 EBRILL 2024 – BORE
TUESDAY, 23 APRIL 2024 – MORNING

CYMRAEG AIL IAITH – Uned 2
WELSH SECOND LANGUAGE – Unit 2

PRAWF C (Diwrnod 2)
TEST C (Day 2)

CYFATHREBU AG ERAILL
COMMUNICATING WITH OTHER PEOPLE

COPI'R YMGEISYDD
CANDIDATE'S COPY

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dewiswch UN dasg.

Cewch hyd at 10 munud (a'ch amser estynedig) i baratoi'r dasg hon.

Gallwch wneud nodiadau a thrafod gyda'ch partner/grŵp yn ystod y cyfnod hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron neu unrhyw adnodd arall wrth baratoi.

Cyn gadael yr ystafell arholi rhaid i chi roi'r daflen hon ac unrhyw nodiadau a wnaethoch yn ystod y 10 munud i'r athro/athrawes sy'n cynnal y prawf.

INFORMATION FOR CANDIDATES

Choose ONE task.

You have up to 10 minutes' preparation time (plus your additional time allowance).

You may make notes and discuss with your partner/group during this time.

The use of dictionaries or any other resource is forbidden during preparation.

Before leaving the examination room this sheet and any notes you made during the 10 minutes must be given to the teacher conducting the test.

**(Trowch y dudalen)
(Turn over)**

NAILL AI

TASG 1

POB MATH O WYLIAU

Dim ots gen i ble.... Ond RHAID cael
tywydd poeth!

Begw

Dw i'n mynd i wersylla gyda
chwech o ffrindiau ar ôl
gorffen TGAU. Dydy rhieni Eve
ddim yn hapus iddi hi ddod
gyda ni.

Lowri



**Mae gan fy modryb dŷ gwyliau
mewn pentref bach yn Sbaen.
Mae hi'n mynd yno tua 4
gwaith y flwyddyn. Dydy hi
ddim yn gallu siarad Sbaeneg –
byddai'n well gweld teulu lleol
yn byw yno!**

Gwyn





**gwyliau
mewn
dinas**



**gwyliau
sgïo**



**gwyliau
glan y
môr**



**Pa un hoffet
ti?**

**Gwyliau yng
Nghymru i mi.
Rhaid meddwl am
yr ôl troed carbon!
Matthew**

**gwyliau
yng
Nghymru**

Rydw i wedi bod ar wyliau gyda'r ysgol dair gwaith. Y gwyliau gorau oedd sgïo yn yr Eidal. Cawson ni dywydd ardderchog a llawer o hwyl!

Faris

Y 5 ucha':

1. Tywydd poeth
2. Digon i'w wneud/ weld
3. Bwyd da/ gwahanol
4. Gallu deall yr iaith
5. Pris y gwyliau

**Mae nain a taid yn hoffi mynd ar
wyliau. Maen nhw wedi bod i sawl
gwlad ac hefyd wedi cael gwyliau ym
Mhrydain. Dydy'r gwyliau ddim yn
ddrud iawn achos dydyn nhw ddim yn
mynd yn ystod gwyliau'r ysgol.**

Ceri



SIOPA'N LLEOL – PWYSIG?

Dw i wedi dweud
ffarwel wrth siopa ar-lein
a chwmnïau mawr.
Dw i bob amser yn
siopa'n lleol.

Ani



Weithiau mae fy nheulu
yn prynu bwyd yn siop y
fferm ond mae'n ddrud
iawn. Allwn ni ddim
fforddio hyn bob wythnos.

Gareth



Kindle neu siop lyfrau?
Spotify neu siop gerddoriaeth?
Vinted neu siop ddillad y dre?





**Roedd gyda ni siopau
lleol da iawn yn ein
pentref ni. Yn ystod y
pandemig caeodd llawer
a dydyn nhw ddim wedi
ail agor. Does dim
cymaint o waith yma
nawr!**

Ross

CEFNOGWCH FUSNESAU BACH!

Wrth siopa’n lleol
does dim costau
teithio. Hefyd mae
llai o lygredd wrth
beidio mynd yn y car.
Connor

Rydw i’n byw mewn
pentref bach. Does dim
digon o siopau gyda ni
felly rhaid i mi fynd i
siopau mawr y ddinas
neu siopa ar-lein!
Salina

Does dim digon o ddewis
wrth siopa’n lleol ac mae
popeth mor ddrud.
Nadia



Mae busnes gwerthu dillad
plant bach gyda fy chwaer ar
Etsy. Mae rhent y siopau
lleol mor ddrud mae'n rhaid
iddi redeg y busnes ar-lein.
Ella



Siopau'n cau



dim arian

fandaleiddio

dim gwaith

CYTUNO?

NEU

TASG 3

MAE’N BWYSIG EDRYCH AR ÔL Y CORFF

BWYTA’N IACH



YFED DIGON O
DDŴR



SUT?

DIGON O YMARFER



DIM YSMYGU



DIM ALCOHOL



Dw i'n cytuno bod edrych ar ôl y corff yn bwysig iawn ond mae edrych ar ôl y meddwl yn bwysig hefyd!

Celyn

**WYT TI'N
CYTUNO?**

Mae angen llawer o arian i gadw'n heini. Rhaid cael esgidiau a dillad addas ac os ydych chi'n ymuno â'r gampfa mae'n costio ffortiwn!

Mali.

meddwl
org

Does dim amser gen i i wneud
ymarfer corff; mae gormod o
waith ysgol. Mae hyn yn achosi
llawer o boen meddwl!

Rhys

YSGOL PANT Y RHEDYN CLWB CERDDED

Ydych chi eisiau cadw'n ffit am ddim?

- Teithiau cerdded pob wythnos.
- Llwybrau lleol hawdd.
- Angen esgidiau cyfforddus, côt law a digon o ddŵr.

Cysylltwch â Mrs James, Gwyddoniaeth
am fwy o fanylion.

Mae tad-cu yn chwe deg chwech
oed. Mae e'n ffit iawn! Mae'n
mynd â'r ci am dro bob dydd ac
mae e'n chwarae golff ar y
penwythnos. Dydy e ddim yn
ysmygu ond mae'n cael gwydraid o
wisgi bob nos cyn mynd i'r gwely.

Peter

Sut ydych chi'n ymarfer?

- chwaraeon tîm
- cerdded
- campfa
- rhedeg

